# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 13fed o Chwefror 2018 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Gerallt Davies, Wyn Jones, Ruby Williams, Jocelyn Andrew a Wyn Evans.

**Hefyd yn bresennol:** Y Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Garym Roberts ac Eiddwen Merritt.

**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Ionawr a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

Cynigiodd y Cynghorydd Wyn Evans i ofyn i Dyfrig Jones i roi yr hysbysfwrdd lan ar bwys siop Dryslwyn a phaswyd hyn yn unfrydol. Dywedodd y clerc fod ein gwefan newydd nawr dan ofal Elfed Jenkins.

**Materion Cynllunio:**

Dim.

**Arolwg Trefnidadau Etholiadau:**

Darllenwyd lythyr yn ein hysbysu fod rhan gyntaf o'r Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol wedi ei gwblhau a fyddau'r Comisiwn Ffiniau yn croesawu unrhyw sylwadau.

**Hyfforddiant Cynllunio**

Derbyniwyd lythyr oddiwrth Cymorth Cynllunio Cymru (yn uniaith Saesneg) yn gwahodd yn Cynghorwyr i hyfforddiant ym Mhenmorfa, Aberaeron ar yr 28ain o Chwefror. Penderfynwyd na fyddai neb yn mynychu ond i ddanfon llythyr yn pwysleisio y pwysigrwydd o ddanfon llythyron yn ddwyieithog yn y dyfodol.

**Materion ariannol**

Anfoneb oddiwrth Elfed Jenkins am greu y wefan newydd- £410.00.
Costau Etholiadol 2017 - £162.30

**Unrhyw Fater Arall:**
Soniodd y Cynghorydd Jocelyn Andrew fod yna dwll yn y ffordd ar bwys Rose Cottage, Derwen Gam ac y gallau fod o beryg i gerddwyr neu cerbydau a gofynnwyd i'r clerc i gysylltu a'r Adran Briffyrdd.
Paswyd i'r Cyngor gael ei cinio blynyddol yn Nhafarn Dyffryn Aeron, Felinfach a gofynwyd i'r clerc wneud trefniadau pellach.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 13eg o Fawrth.